Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/EM/0710/21

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

23 Mawrth 2021

Annwyl Lynne,

Ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor ym mis Mai 2020, gan dynnu sylw at gynnydd mewn nifer o feysydd fel rhan o'r gwelliannau rydym yn eu gwneud i gefnogi iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru. Fel rhan o'r diweddariad, tynnodd y Gweinidog sylw at rai o'r heriau yr oedd Covid-19 wedi'u hachosi i wasanaethau, gan gynnwys yr anawsterau o ran cynnal dulliau adrodd arferol gan fyrddau iechyd lleol ar adeg pan oeddent o dan bwysau sylweddol. Bryd hynny, pwysleisiodd y Gweinidog fod gwasanaethau amenedigol ymhlith y gwasanaethau iechyd meddwl 'hanfodol' hynny yr ydym wedi bod yn glir bod yn rhaid eu cynnal yn ystod y pandemig presennol. Gallaf gadarnhau bod hyn wedi parhau yn wir, er fy mod yn cydnabod bod y pandemig wedi rhoi teuluoedd dan bwysau ychwanegol, ac y bu heriau o ganlyniad i Covid fel polisi ymweld â wardiau mamolaeth a fydd wedi cael effaith andwyol ar ddarpariaeth amenedigol. Er fy mod yn derbyn bod hwn wedi bod yn gyfnod eithriadol o anodd i rieni newydd, credaf ei bod yn bwysig cydnabod ymdrech aruthrol staff o'r holl wasanaethau sydd wedi ymrwymo i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i rieni a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Gallaf ysgrifennu atoch yn awr gyda diweddariad manylach ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Iechyd Meddwl Amenedigol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017. Mae'r llythyr hwn yn rhoi cyd-destun a gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r diweddariad amgaeedig yn erbyn pob un o'r argymhellion yn eich adroddiad. Fel y gwelwch o'r diweddariad, mae rhai argymhellion lle gwelwyd cynnydd cadarnhaol, a chredaf fod argymhellion 1, 3 ac 11 bellach wedi'u cwblhau. Rydym hefyd wedi darparu ymatebion lefel uchel i argymhellion y Pwyllgor hynny a wrthodwyd yn flaenorol i roi sicrwydd bod y gwaith hwn wedi'i gynnwys fel y nodwyd yn yr ymateb gwreiddiol hwnnw.

Cwblhawyd rhai argymhellion, megis yr argymhelliad i sefydlu Uned Mamau a Babanod yn ne Cymru lle mae datblygiadau ar y trywydd iawn, gyda'r uned ym Mwrdd Iechyd Prifysgol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bae Abertawe wedi'i chwblhau y mis hwn ac wedi'i hamserlennu i dderbyn cleifion o'r mis nesaf ymlaen. Mae hyn yn gam sylweddol tuag at ddarparu gwell cymorth iechyd meddwl amenedigol i famau yng Nghymru, ac rwy'n ddiolchgar i'r holl staff a rhanddeiliaid sydd wedi gwneud hyn yn bosibl, yn enwedig ac ystyried yr heriau o ddatblygu'r gwaith adeiladu drwy bandemig COVID-19. Bydd y gwaith hwn yn sefydlu Uned Mamau a Babanod chwe gwely a fydd yn rhoi cymorth arbenigol i famau yn unol â safonau CCQI. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r broses o drosglwyddo i ddarparu darpariaeth cleifion mewnol amenedigol yn ne Cymru er mwyn sicrhau bod yr uned yn darparu'r lefel o wasanaeth a fynnir. Yr wyf yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod darpariaeth ar gael hefyd i famau sy'n byw yng Ngogledd Cymru, a gallaf gadarnhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda GIG Lloegr i ddatblygu'r opsiwn o Uned Mamau a Babanod wyth gwely ar y cyd a fyddai'n cynnig darpariaeth i fenywod o Ogledd Cymru.

Mae'r pandemig wedi effeithio ar gynnydd yn erbyn rhai argymhellion gan fod byrddau iechyd wedi gorfod canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen yn y cyfnod heriol hwn. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod cynnydd ar yr argymhellion hyn yn cael ei flaenoriaethu, a darperir rhagor o fanylion yn y diweddariad.

Un maes lle bu oedi, yn bennaf oherwydd Covid, yw'r broses ofynnol o gasglu data. Fodd bynnag, mae gwasanaethau amenedigol ar draws ardaloedd BILlau bellach wedi gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch y gwasanaeth. Darparwyd diweddariadau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2020. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn erbyn yr holl feini prawf. Mae data wedi'i nodi'n gyfanredol lle y bo'n bosibl i roi darlun cyffredinol o wasanaethau, a dylid ei drin fel un dangosol yn unig.

Dangosodd y data a dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2019 a 30 Medi 2020, fod 3,925 o atgyfeiriadau wedi'u derbyn ledled Cymru, gyda 2,994 o atgyfeiriadau wedi'u derbyn. Gan fod y broses hon o gasglu data yn cwmpasu cyfnod o 12 mis, mae'n bosibl ystyried y data ar wahân ar gyfer y 6 mis hyd at fis Mawrth 2020 ac yna'r 6 mis hyd at fis Medi 2020, gan dynnu gwasanaethau allan yn fras cyn ac yn ystod mesurau i fynd i'r afael â COVID-19. O'r 2,491 o atgyfeiriadau, derbyniwyd 2,168 cyn mis Ebrill 2020, a derbyniwyd 1,757 o fis Ebrill ymlaen. Cynyddodd canran yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd o 75% i 78% yn yr ail gyfnod o chwe mis. Yna aeth 1,756 o'r atgyfeiriadau hyn ymlaen i'w hapwyntiad cyntaf. Ar gyfer y byrddau iechyd a ddarparodd ddata ar gyfer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd a phresenoldeb mewn apwyntiadau cyntaf, cynyddodd lefel presenoldeb yn yr apwyntiadau cyntaf o 70% i 74% yn ail 6 mis y cyfnod. Mae hyn yn dangos na chafodd y pandemig effaith negyddol ar bresenoldeb mewn apwyntiadau, yn rhannol oherwydd y dewisiadau rhithwir amgen a ddarparwyd gan wasanaethau.
Dangosodd y data a oedd ar gael hefyd fod 90% o fenywod a gafodd eu trin ar gyfer problemau iechyd meddwl amenedigol yn ystod y cyfnod o 12 mis wedi cael eu trin gan y tîm iechyd meddwl cymunedol amenedigol. Cafodd tua hanner y menywod a oedd yn weddill eu trin mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol. Cafodd gweddill y menywod eu trin naill ai mewn Uned Mamau a Babanod, mewn ward seiciatrig i oedolion heb eu baban neu fel triniaeth gartref / gan dîm argyfwng.

Nid yw data amseroedd aros yn ddigon cyflawn eto i ddod i gasgliadau pendant ar amseroedd aros, ond mae'r data sydd ar gael yn dangos bod amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau cyffredinol yn parhau i ostwng. Nid oes digon o ddata i werthuso amseroedd aros am therapi seicolegol ar hyn o bryd.

Mae gwaith yn cael ei wneud i wella dibynadwyedd y casgliad data hwn er mwyn gallu ei gyhoeddi. Darperir rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn yn y diweddariad.

Mae'r data hwn yn cael ei gasglu yn ogystal â phroses fonitro cynnydd yn barhaus yn erbyn bodloni Safonau’r Coleg Brenhinol Seiciatreg. Mae pob bwrdd iechyd bellach wedi ymrwymo i'r Rhwydwaith Ansawdd Amenedigol, ac wedi ymrwymo i ddechrau'r broses o archwilio eu gwasanaethau'n annibynnol yn erbyn y safonau. Mae hyn bellach wedi dechrau mewn pedwar bwrdd iechyd, a bydd gweddill y byrddau iechyd yn dechrau'r broses yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Bydd y broses hon yn rhoi adborth pwrpasol i wasanaethau i wella eu gwasanaethau, ac yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru ar safon gwasanaethau ledled Cymru. Yn y cyfamser, mae'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol Cenedlaethol wedi bod yn monitro cynnydd yn anffurfiol yn erbyn y safonau. Mae hyn wedi dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud, gyda thri bwrdd iechyd bellach yn bodloni pob safon math 1. Mae gweddill y byrddau iechyd yn dangos cynnydd cadarnhaol, gyda meysydd i'w gwella.

I ddechrau, roedd gwasanaethau'n gweithio tuag at gyflawni safonau math 1 a math 2 erbyn mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, mae COVID-19 yn amlwg wedi cael effaith ar ddatblygu gwasanaethau. Bydd disgwyl yn awr i fyrddau iechyd ddefnyddio canfyddiadau eu proses archwilio i nodi meysydd i'w gwella ac ymrwymo i gyflawni'r gwelliannau hyn erbyn mis Mawrth 2022.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith yn hyrwyddo'r angen am wasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol gwell yn ystod tymor y Senedd hon. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor a'r gwaith a wnaethpwyd wedi bod yn ddylanwadol wrth bennu blaenoriaethau'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol cenedlaethol. Gallaf eich sicrhau y bydd y rhwydwaith yn parhau i sbarduno'r gwelliannau hyn i'r Senedd nesaf, gan barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu'r llwybr gofal clinigol a gwella gwasanaethau i fenywod, eu partneriaid a'u teuluoedd.

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language

Argymhelliad - 1. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu, ac yn darparu cyllid cenedlaethol ar gyfer, rhwydwaith clinigol a reolir dan arweiniad clinigwyr. Dylai’r rhwydwaith gael yr adnoddau angenrheidiol gan gynnwys amser uwch staff clinigol a gweinyddol, a chyllideb hyfforddi. Bydd hyn yn ei alluogi i roi arweinyddiaeth, cydlyniant ac arbenigedd cenedlaethol ar gyfer datblygu ymhellach y gwasanaethau a’r gweithlu iechyd meddwl amenedigol, gan gynnwys mewn perthynas â safonau ansawdd, llwybrau gofal, cymwyseddau proffesiynol ac adnoddau hyfforddi. Dylai’r rhwydwaith clinigol a reolir barhau â dull gweithredu amlddisgyblaethol y Gymuned Ymarfer gyfredol i annog a datblygu cydweithio a chyfathrebu effeithiol ymysg yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol.

Mae Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru wedi'i wreiddio yn strwythur Rhwydwaith Iechyd Meddwl Rhaglen Gydweithredol y GIG gyda chymorth gan gynnwys Swyddog Cymorth Rhaglenni, Rheolwr Rhaglen a Dadansoddwr Data. Fel rhan o raglen gydweithredol y GIG, mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer traws-weithio a rhannu gwybodaeth. Rydym hefyd wedi ymestyn secondiad yr Arweinydd Clinigol Cenedlaethol tan fis Mawrth 2022. Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol i'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl i barhau i gefnogi’r anghenion hyfforddi a nodwyd gan y Rhwydwaith Clinigol. Mae hyn yn ychwanegol at gymorth ariannol Llywodraeth Cymru i fyrddau iechyd gyflwyno hyfforddiant gan ddefnyddio cyllid gwella'r gwasanaeth iechyd meddwl.

Rydym yn parhau i flaenoriaethu strwythurau sy'n datblygu prosesau cydweithio a chyfathrebu effeithiol ymysg gweithwyr proffesiynol a nodir bod y Bwrdd Iechyd Meddwl Amenedigol Cenedlaethol, y Grŵp Llywio Clinigol Cenedlaethol a'r Gymuned Ymarfer i gyd wedi parhau i gyfarfod (yn rhithwir) drwy gydol 2020. Hefyd, trefnwyd cynhadledd rithwir gan y Rhwydwaith Clinigol gyda chefnogaeth Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, a rhoddodd hyn gyfle i ddangos arferion gorau achosion ledled Cymru, anfonwyd y ddolen i’r platfform ar 1 Rhagfyr a bydd yn parhau ar gael i'r cyhoedd. Mae'r Arweinydd Clinigol yn parhau i wneud cysylltiadau lle mae o fudd i wasanaethau / gweithlu iechyd meddwl amenedigol ac mae fforymau proffesiynol ar gyfer therapyddion galwedigaethol, nyrsys meithrin ac obstetryddion wedi'u sefydlu.

Bydd y gwaith hwn yn parhau ar ffurf 'busnes fel arfer' a bydd rhagor o weithgarwch yn cael ei gynnwys yn niweddariadau arferol yr Arweinydd Clinigol Iechyd Meddwl Amenedigol sydd ar gael i randdeiliaid. Felly, ystyrir bod yr argymhelliad hwn bellach wedi'i gwblhau.

Argymhelliad 2: Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau mai un o dasgau cyntaf y rhwydwaith clinigol a reolir newydd yw cytuno ar fesuriadau perfformiad seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol a’u cyhoeddi. Unwaith y bydd y rhain wedi’u datblygu, dylai Llywodraeth Cymru gasglu a chyhoeddi data cenedlaethol a lleol ar y mesurau, gyda darpariaeth gwasanaethau, gweithgarwch a gwelliannau yn cael eu monitro gan gorff cyhoeddus cysylltiedig penodol (e.e. Iechyd Cyhoeddus Cymru) fel y gellir nodi a gweithredu mwy o liferi ar gyfer gwella.

Argymhelliad 4: Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau, unwaith y bydd y gwaith brys i bennu lefel y galw am wasanaethau uned mamau a babanod wedi’i gwblhau yn unol â chais Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, bod dulliau casglu a monitro data mwy cadarn yn cael eu cynnal ar draws y llwybr amenedigol er mwyn deall lefel barhaus yr angen a’r galw am gymorth ac i ddarparu sail dystiolaeth gadarnach ar gyfer datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu data sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a gweithgarwch o fewn gwasanaethau amenedigol, a lefel y galw am wasanaethau Unedau Mamau a Babanod (MBU). Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am ddata cyfanredol a thueddiadau allweddol ledled Cymru ar wahân. Bu heriau wrth ddatblygu'r casgliad data hwn ymhellach dros y 12 mis diwethaf oherwydd effaith COVID-19. Nid yw'r data hyn yn ddigon cadarn eto i'w cyhoeddi ar lefel genedlaethol a lleol oherwydd lefelau amrywiol o ran pa mor gyflawn yw’r ffurflenni data sydd wedi’u llenwi.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Amenedigol Cenedlaethol bellach yn blaenoriaethu casglu data er mwyn sicrhau bod y data lefel uchel yn cael ei gasglu yn briodol i'w gyhoeddi. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys casglu canlyniadau. Ar hyn o bryd mae fframwaith mesur canlyniadau drafft yn cael ei ddatblygu sydd wedi'i seilio ar y Fframwaith ar gyfer Mesurau Canlyniadau a ddarparwyd gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion. Mewn cydweithrediad â Rhaglen Gydweithredol Iechyd GIG Cymru, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Meddwl Amenedigol (PNMH) i flaenoriaethu datblygiad a chytundeb Set Ddata Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru. Bydd y Grŵp hwn yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Prosiect Set Ddata Graidd Genedlaethol Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu a'i rôl yw rhoi cyngor a chymorth ar bob set ddata iechyd meddwl. Bwriedir cynnwys data amenedigol o fewn y Set Ddata Graidd. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda thîm Safonau Data Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) sy'n cefnogi sicrwydd a datblygiad holl safonau data GIG Cymru i sicrhau bod prosesau casglu data yn ddibynadwy ac yn darparu sylfaen dystiolaeth gyson ar gyfer gwasanaethau ledled Cymru.

Argymhelliad 3: Bod y gwaith y gofynnwyd amdano gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i nodi lefel y galw am wasanaethau uned mamau a babanod yn cael ei gwblhau fel mater o frys. Rydym yn argymell bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn ystod y cyfnod 6 wythnos y byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb i’r adroddiad

hwn a dylai fod yn brif ystyriaeth wrth benderfynu sut i ddyrannu cyllid ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cleifion mewnol arbenigol a gyhoeddwyd fel rhan o gytundeb y gyllideb ar 01 Hydref.

Rydym eisoes wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith WHSSC i nodi lefel y galw am wasanaethau MBU cleifion mewnol, a oedd yn ofynnol er mwyn llywio'r anghenion gwasanaeth gofynnol ar gyfer De Cymru a Gogledd Cymru. Mae hyn wedi arwain at sefydlu'r MBU yn Nhonnau (nodir diweddariad pellach yn argymhelliad 6) a chlustnodi adnoddau ar gyfer Gogledd Cymru yng nghyllidebau WHSSC. Yng Ngogledd Cymru mae hyn yn cyfateb i 2 wely ar hyn o bryd, gyda phosibilrwydd o drydydd gwely petai'r asesiad parhaus o angen yn dangos hynny. Ceir rhagor o fanylion am ymateb Gogledd Cymru yn argymhelliad 7. Felly, ystyrir bod yr argymhelliad hwn yn gyflawn.

Argymhelliad 5: Bod y rhwydwaith clinigol a reolir newydd (gweler argymhelliad 1) yn rhoi blaenoriaeth i gynhyrchu canllawiau i weithwyr proffesiynol a gwybodaeth i gleifion, yn seiliedig ar dystiolaeth, ynghylch sut gall cyfnod mewn uned mamau a babanod fod o fudd i famau, babanod a'u teuluoedd fel y gellir gwneud penderfyniadau mwy gwybodus am opsiynau triniaeth

Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru wedi llunio'r canllawiau hyn; gellir cael gafael arnynt drwy'r ddolen ganlynol. Mae'r Arweinydd Clinigol yn gweithio gyda nhw i gyfieithu'r holl daflenni PNMH i'r Gymraeg.

Argymhelliad 6: Bod Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd, yn sefydlu uned mamau a babanod yn ne Cymru, wedi'i chomisiynu a'i chyllido yn genedlaethol i ddarparu gwasanaethau Cymru gyfan, sydd â staff digonol o ran niferoedd a disgyblaethau, ac sy'n gweithredu fel canolfan ganolog o wybodaeth a dysgu seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer iechyd meddwl amenedigol yng Nghymru.

Fel y cynghorwyd yn llythyr y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor ym mis Chwefror 2020, nodwyd y potensial i adnewyddu adeilad nad yw'n cael ei ddefnyddio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ddatblygu Uned Mamau a Babanod bwrpasol ar safle Tonna, gan ein galluogi i sicrhau bod uned yn weithredol cyn gynted â phosibl. Adolygwyd y safle hwn gan yr Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol yn erbyn y safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Amenedigol cleifion mewnol (CCQI Mawrth 2018) a chadarnhaodd y byddai'n briodol yn glinigol naill ai dros dro neu'n barhaol. Ar ôl hynny, cymeradwyodd y Gweinidog gyllid cyfalaf ar gyfer y gwaith hwn ac ymrwymodd i ddarparu cyllid ychwanegol i ddatblygu capasiti a gallu'r gweithlu cyn i'r uned ddod yn weithredol. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn cydnabuwyd bod angen i ni bennu'r model priodol ar gyfer Uned Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol barhaol. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i WHSSC gynnal arfarniad opsiynau pellach i'n galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a fyddai parhau i ddefnyddio'r uned a adnewyddwyd ar safle Ysbyty Tonnau yn barhaol, neu ddatblygu Uned Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol newydd ar safle Castell-nedd Port Talbot, yn sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sefydlu safle Tonnau a phan gaiff ei agor byddwn yn gwerthuso mynediad i'r uned honno a'i meddiannu dros y misoedd nesaf gan alluogi'r llywodraeth nesaf i lunio barn wybodus am ba gamau sydd angen eu cymryd yn y dyfodol.

Dechreuodd gwaith cyfalaf ar safle Tonna yn hydref 2020 ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi cadarnhau bod disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2021. Ochr yn ochr â hyn, mae'r bwrdd iechyd wedi bod yn ymgymryd â'r broses ofynnol o recriwtio staff a drafftio canllawiau / protocolau, mae wedi cadarnhau y bydd yn barod i dderbyn y cleifion cyntaf o ganol mis Ebrill ymlaen.

Mae WHSSC, yr Arweinydd Clinigol Iechyd Meddwl Amenedigol a rhanddeiliaid wedi gweithio gyda'i gilydd dros y cyfnod gweithredu hwn i ddatblygu Manyleb Gwasanaeth Uned Mamau a Babanod Iechyd Meddwl Amenedigol, a oedd hefyd yn destun ymgynghoriad ffurfiol. Mae'r fanyleb hon hefyd yn cadarnhau rôl yr uned i weithio fel canolbwynt ar gyfer gwybodaeth a dysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er mwyn iddo weithredu felly, cydnabyddir bod angen i bob tîm iechyd meddwl amenedigol arbenigol ymgysylltu â'r rhwydwaith ehangach. Mae cydweithwyr ym Mae Abertawe a thîm y Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol wedi cydweithio i ddarparu cyfleoedd rheolaidd i holl aelodau'r rhwydwaith gael diweddariadau rheolaidd ar ddatblygiad yr uned a bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

Argymhelliad - 7. Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r ffaith na fydd uned mamau a babanod sydd wedi'i lleoli yn ne Cymru o reidrwydd yn addas i famau a theuluoedd yng nghanolbarth a gogledd Cymru, yn ymgysylltu fel mater o frys â GIG Lloegr i drafod opsiynau ar gyfer creu canolfan yn y gogledd-ddwyrain a allai wasanaethu poblogaethau o boptu'r ffin. Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o sicrwydd mewn perthynas â gallu GIG Cymru i gomisiynu gwelyau mewn unedau mamau a babanod mewn canolfannau yn Lloegr lle pennir bod angen clinigol amdanynt.

Bu cryn ymgysylltu rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, WHSSC a chydweithwyr yn GIG Lloegr a theimlir bod y gwaith hwn wedi dangos tystiolaeth o gefnogaeth i ddatblygu uned mamau a babanod 8 gwely ar y cyd yng Ngogledd Orllewin Lloegr gyda mynediad da o ogledd Cymru. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r model hwn ymhellach ac mae WHSSC wedi cadarnhau bod y galw / capasiti presennol yn dangos y gofyniad i ariannu dau wely, a thrydydd gwely os oes angen. Mae hyn wedi'i gynnwys yng nghynlluniau comisiynu cyfredol WHSSC. Mae WHSSC a'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl yn mynd ati i ddatblygu'r gwaith hwn. Gan fod y ddarpariaeth hon yn cael ei chlustnodi ar gyfer safle yn Lloegr rydym yn sicrhau bod anghenion Iaith Gymraeg unigolion a'u teuluoedd yng Nghymru wedi cael eu pwysleisio fel blaenoriaeth gan bawb ac y byddant yn cael eu diwallu yn unol â dyletswyddau statudol y byrddau iechyd ar Safonau'r Gymraeg. Caiff hyn ei ystyried ym mhob agwedd ar ddarparu gwasanaethau a staffio

Argymhelliad - 8. Bod Llywodraeth Cymru'n darparu cynllun gweithredu clir i sicrhau bod canolfannau sy'n darparu gwelyau mewn unedau mamau a babanod, pa le bynnag y bônt (yng Nghymru neu yn Lloegr) wedi'u hintegreiddio'n agos â thimau iechyd meddwl amenedigol cymunedol arbenigol a'u bod yn cael eu rheoli, eu cydgysylltu a'u hariannu ar sail genedlaethol, Cymru gyfan i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithlon a bod mynediad teg iddynt, yn enwedig gan fod eu hangen ar frys mewn sefyllfaoedd argyfwng yn aml.

Gallwn gadarnhau bod cysylltiadau wedi'u gwneud â'r tîm cenedlaethol yn Lloegr a bod gwaith wedi'i wneud gan gydweithwyr yn Nhîm Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol Bae Abertawe i sicrhau bod llwybr clir ar gyfer derbyn mamau a babanod i'r uned yng Nghymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn â'r holl dimau arbenigol ledled Cymru hefyd ym mis Ionawr 2021 i sicrhau eu bod yn cytuno ar y prosesau hyn ac yn eu deall. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n barhaus yn ystod y misoedd cyntaf ar ôl iddynt agor er mwyn sicrhau y gellir ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd dros y cyfnod hwn i lywio arfer yn y dyfodol.

Argymhelliad - 9. Ar sail dadl "buddsoddi er mwyn arbed" ac yn dilyn dadansoddiad o'r gwerthusiad o wasanaethau sydd ar droed, a chanlyniadau ymchwil Mind-NSPCCY Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, bod Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ychwanegol i'r Byrddau Iechyd er mwyn gallu mynd i'r afael ag amrywiadau yn well fel bod modd datblygu gwasanaethau a gwella ansawdd trwy ehangu'r timau presennol. Er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau iechyd amenedigol cymunedol yn cyrraedd yr un safon â'r gorau, dylai'r dull a fabwysiedir gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid ychwanegol anelu'n bennaf at yr angen i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn darpariaeth rhwng Byrddau Iechyd yng Nghymru.

Yn 2015, darparwyd £1.5m y flwyddyn i sefydlu gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol. Ers hynny, rydym wedi gweld y timau hyn yn parhau i ehangu drwy ddyrannu cyllid gwella gwasanaethau i fyrddau iechyd. Gyda'i gilydd, mae hyn wedi arwain at sicrhau bod tua £3m ar gael bob blwyddyn i fyrddau iechyd ar gyfer eu gwasanaethau cymunedol iechyd meddwl amenedigol. Dyrannwyd yr arian hwn ar y sail bod disgwyl iddynt fodloni Safonau Cymunedol Coleg Brenhinol Seiciatreg ar gyfer Timau Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol

Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wedi nodi'n glir y bydd iechyd meddwl amenedigol yn flaenoriaeth yn y cyllid ar gyfer gwella gwasanaethau sy'n dechrau o 2021/22. Bydd dadansoddiad bwlch o bob bwrdd iechyd yn erbyn y safonau yn cael ei gynnal i lywio'r broses o ddyrannu'r adnoddau hyn, a bydd hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd fodloni argymhellion cymhareb staffio math 1:3 o fewn y safonau.

Mae pob bwrdd iechyd bellach wedi ymrwymo i'r Rhwydwaith Ansawdd Amenedigol a bydd pob un ohonynt wedi cwblhau eu hadolygiad blynyddol cyntaf erbyn mis Ebrill 2021. Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod timau'n gweithio'n gyson ac yn ein sicrhau bod y gwasanaethau yn cyrraedd safon briodol.

Argymhelliad - 10. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer menywod amenedigol (a dynion lle bo angen) yn cael ei flaenoriaethu o ystyried y cysylltiad sydd wedi'i sefydlu rhwng salwch amenedigol ac iechyd a datblygiad plentyn. Dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod menywod beichiog a menywod sydd newydd roi genedigaeth sydd â phroblemau iechyd meddwl yn gallu cael therapïau siarad neu wasanaethau seicolegol (ar lefel gofal sylfaenol ac eilaidd) yn gyflym ac amserol, gydag amseroedd aros yn cael eu monitro a'u cyhoeddi. Gofynnwn am ddiweddariad ar gynnydd mewn perthynas â gwella mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer menywod amenedigol (a dynion lle bo angen) o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Ers cyhoeddi'r argymhellion hyn, rydym yn parhau i gefnogi gwaith i wella mynediad at ymyriadau a therapïau seicolegol ac mae'n parhau yn faes blaenoriaeth yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022. Yn 2018/19, darparwyd £4m o gyllid ychwanegol yn uniongyrchol i fyrddau iechyd i'w cefnogi i wella mynediad at therapïau seicolegol a gwnaethpwyd buddsoddiad pellach mewn cylchoedd dilynol o gyllid gwella gwasanaethau (yn 2019/20 a 2020/21), sef cyfanswm o £3.5m ychwanegol.

Dyrannwyd yr arian hwn ar y sail y dylai adeiladu ar fuddsoddiad blaenorol ac y gallai byrddau iechyd ddangos sut y byddai'r cyllid yn cefnogi gweithredu Matrics Cymru, y Canllawiau ar gyfer Darparu Therapi Seicolegol yn Seiliedig ar Dystiolaeth yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2017. Cynlluniwyd Cynllun Gweithredu ategol y Pwyllgor Rheoli Therapïau Seicolegol Cenedlaethol (NPTMC), a gyhoeddwyd yn 2018, i helpu byrddau iechyd i werthuso a chynllunio eu gwasanaethau yn erbyn y canllawiau a'r tablau tystiolaeth cysylltiedig.

Yn dilyn yr archwiliadau cychwynnol a gynhaliwyd yn 2018 yng nghyswllt Cynllun Gweithredu'r NPTMC, byddwn yn gofyn i fyrddau iechyd adolygu'r broses o weithredu'r cynlluniau hynny fel rhan o raglen waith eleni. Byddwn yn gofyn am dystiolaeth ganddynt ynglŷn â sut y maent yn bwriadu canolbwyntio ar feysydd lle mae angen datblygu pellach. Cefnogir hyn gan gyllid gwella gwasanaethau lle bo angen

Eleni, mae gwaith wedi'i wneud hefyd i asesu a mapio'r gweithlu seicolegol presennol gan gynnwys capasiti, goruchwyliaeth ac anghenion hyfforddi. Mae'r dadansoddiad eang hwn wedi'i rannu ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i lywio'r gwaith y maent yn ei wneud o gynllunio'r gweithlu. Yn dilyn trafodaethau, roedd hyn yn cynnwys lleoedd ychwanegol yn gyflym i hyfforddi seicolegwyr o flwyddyn academaidd 2020-21.

Rydym hefyd yn cefnogi seilwaith dros dro i gefnogi'r ddarpariaeth barhaus o therapïau seicolegol, gan sicrhau bod yr ystod o therapïau sydd ar gael yn cael ei chryfhau, a bod dewis defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei wreiddio fel proses arferol ar draws gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys adolygu'r tablau tystiolaeth yn systematig ac yn gadarn sy'n sail i Fatricsau Cymru gan ei bod yn hanfodol eu bod yn parhau i gael eu diweddaru i sicrhau bod y byrddau iechyd yn gallu darparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi gwaith i egluro'r ystod o ymyriadau seicolegol sydd eu hangen ar unigolion a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod amenedigol, gan gynnwys y rhai nad ydynt efallai'n cael cymorth gan dîm amenedigol arbenigol.

I'r unigolion hynny sydd angen mynediad at ymyriadau seicolegol ar lefel gofal sylfaenol fel y nodwyd mewn ffurflenni blaenorol, mae'n ofynnol eisoes bod asesiad gan Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS) yn cael ei gynnig o fewn 28 diwrnod i dderbyn atgyfeiriad a bod ymyriadau therapiwtig dilynol gan LPMHSS yn dechrau o fewn 28 diwrnod i ganlyniad yr asesiad. Mae gan y ddau ofyniad darged perfformiad o 80%. Dengys y data diwethaf a gyhoeddwyd fod byrddau iechyd yn cyrraedd y targedau ar gyfer asesu ac ymyrryd ar sail Cymru Gyfan, pob oed, yn LPMHSS.

Yn fwy cyffredinol nag iechyd meddwl amenedigol rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi data pellach ar y targed therapïau seicolegol arbenigol 26 wythnos ar Stats Cymru ond mae hyn wedi'i ohirio dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd y gwaith sy'n ofynnol ar yr ymateb i'r pandemig, ond rydym unwaith eto wedi codi hyn gyda byrddau iechyd i wella cysondeb ac ansawdd data cyn ei gyhoeddi ar wefan Stats Cymru. Gofynnir i fyrddau iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn y Gwanwyn. Bydd angen gwneud rhagor o waith i ddadgyfuno'r data hwn yng nghyswllt gwasanaethau amenedigol, ond mae cydweithwyr sy'n ymwneud â'r gwaith set ddata iechyd meddwl amenedigol hefyd yn eistedd ar fwrdd prosiect set ddata graidd iechyd meddwl ehangach i alluogi datblygu'r gwaith hwn ymhellach.

Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol yn gweithio gyda Gwella Cymru, sy'n arwain ar ddatblygu'r seilwaith interim a'r NPTMC i sicrhau bod anghenion iechyd meddwl amenedigol yn cael eu hystyried yn y gwaith presennol ac anogwyd pob seicolegydd amenedigol i gysylltu â'u pwyllgorau rheoli therapïau seicolegol lleol i sicrhau bod trefniadau'n cael eu hymgorffori'n lleol. Mae gwaith ar y gweill i ddeall ble rydym ar hyn o bryd a pha ymyriadau/triniaethau sy'n cael eu darparu gan y tîm PNMH Arbenigol, gyda'r bwriad o gytuno ar gynnig bach iawn y dylai pob tîm fod yn ei ddarparu. Nodwyd yr angen i nodi a chytuno ar fframwaith o ymyriadau seicolegol a gynigir ar bob lefel o angen ar draws y llwybr ar gyfer gwaith amenedigol a gwaith rhiant-babanod ac mae bwriad i gynnal gwaith i fynd i'r afael â hyn

Argymhelliad - 11. Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn ymrwymo'n llawn i safonau ansawdd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol er mwyn gwireddu manteision adolygiad cymheiriaid, dysgu a rennir a meincnodi.

Mae pob bwrdd iechyd bellach wedi ymrwymo i safonau ansawdd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, felly ystyrir bod yr argymhelliad hwn yn gyflawn.

Argymhelliad - 12. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y llwybr gofal clinigol Cymru gyfan newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn gofyn am gysondeb o ran canlyniadau (gan gynnwys cyfnodau atgyfeirio ac amseroedd aros) ond yn galluogi Byrddau Iechyd i gadw lefel yr hyblygrwydd sydd ei angen o ran dulliau cyflwyno er mwyn rheoli a diwallu anghenion lleol. Dylai datblygu a gweithredu llwybr gofal clinigol Cymru gyfan integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn y 12 mis nesaf (gyda rhai gwasanaethau lleol) fod yn flaenoriaeth. Dylai'r llwybr helpu i ddarparu gwasanaethau integredig a chymell ymyrraeth gynnar ac ymagweddau cyfannol tuag at ofal a gwella.

Yn ystod y flwyddyn galendr ddiwethaf cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos ar y llwybr gofal cwbl integredig gan y Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol ac mae canfyddiadau'r gwaith hwn a'r profion anffurfiol ar y llwybr gan ddau fwrdd iechyd wedi llywio gwaith presennol y llwybr. Profiad defnyddwyr gwasanaethau yw un o'r dulliau mwyaf pwerus ar gyfer gwella gwasanaethau ac ansawdd ac ymgynghori â grwpiau defnyddwyr o fewn Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru. Cynhaliwyd Grwpiau Llywio Iechyd Meddwl Amenedigol lleol, mudiadau trydydd sector a

gwirfoddol drwy gydol y broses o ddatblygu a llunio'r llwybr gofal hwn. Mae canllawiau / gweithdrefnau polisi priodol ar gyfer timau iechyd meddwl amenedigol arbenigol yn cael eu llunio ar hyn o bryd i'w defnyddio gan bob tîm ledled Cymru.

Mae'r angen i gasglu profiadau a chymhwyso'r rhain yn systematig wrth gynllunio gwasanaethau a datblygu llwybr yn hanfodol ac yn ffordd o fesur canlyniadau allweddol ar gyfer y llwybr. Er mwyn gallu defnyddio adborth fel dull ar gyfer sicrhau datblygiad parhaus, bydd Adnodd Mesur Canlyniadau a Gwerthuso Cleifion (RCPsych, 2020), yn cael ei gynnwys yn Fframwaith Mesur Canlyniadau Cymru. Mae'r POEM ar gael i bob cydweithiwr arbenigol o'r tîm iechyd meddwl amenedigol fel rhan o'r cytundeb i'r Rhwydwaith Ansawdd Amenedigol (PQN) ac i'r gweithlu ehangach drwy Sharepoint.

Mae gwaith y llwybr gofal bron ar ei gamau terfynol ac mae'r gwaith presennol yn canolbwyntio ar ddigideiddio Llwybr Gofal PNMH Cymru a gwybodaeth am y rhaglen.

Argymhelliad - 13. Bod Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd yn gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl amenedigol ymysg y cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol. Dylai hyn fod ar ffurf ymgyrch addysg gyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r symptomau a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â salwch amenedigol a dylai annog normaleiddio'r drafodaeth am les emosiynol er mwyn lleihau stigma ac ofn datgelu.

Gwrthodwyd yr argymhelliad hwn yn wreiddiol oherwydd y teimlad oedd nad ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth heb gyfeiriad a heb eu targedu oedd y ffordd briodol o newid ymddygiad mewn grwpiau allweddol. Fodd bynnag, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddem yn ystyried pa ddulliau addysg gyhoeddus oedd y ffordd fwyaf effeithiol o gynyddu ymwybyddiaeth ac felly er gwybodaeth rydym yn rhannu'r gwaith canlynol:

- Cynnwys iechyd meddwl amenedigol wedi'i lunio ar gyfer taflenni'r Bwndel Babanod
- Cyfieithu Cynllun Lles Beichiogrwydd ac Ar ôl Geni Tommy's i'r Gymraeg a'i ddosbarthu i Benaethiaid Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd gydag awgrymiadau bod pob bydwraig ac ymwelydd iechyd yn ei ddefnyddio i ddechrau sgwrs
- Cytuno ar gyfrif Twitter Rhaglen Gydweithredol y GIG, mae negeseuon allweddol / tudalen gwefan wedi'u datblygu er mwyn lledaenu negeseuon allweddol

Dros y misoedd nesaf rydym hefyd yn gweithio ar ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar y cyd a gynlluniwyd gyda chydweithwyr sy'n arwain ar Raglen Gydweithredol GIG Cymru - Iechyd Menywod. Cynigir y bydd y prosiect yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a lleihau stigma, gan ddod ag iechyd meddwl a chorfforol ac iechyd emosiynol at ei gilydd. Dechreuodd y gwaith ar y prosiect hwn ddechrau mis Mawrth.

Argymhelliad - 14. Bod Llywodraeth Cymru yn adolygu gwybodaeth a ddarperir mewn pecynnau cynenedigol ac ôl-enedigol safonol i fenywod yng Nghymru i sicrhau ei bod yn cynnwys y manylion angenrheidiol am les emosiynol, iechyd meddwl amenedigol a lle i ofyn am help a chymorth.

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddisodli'r cyhoeddiad Naw mis a mwy wedi'i atal oherwydd pandemig Covid. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn ailddechrau unwaith y bydd y sefyllfa dan reolaeth. Yn y cyfamser, bydd menywod yn parhau i gael Naw mis a mwy a byddant yn dal i gael mynediad at gymorth bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd. Rhoddodd Llywodraeth Cymru arweiniad clir drwy gydol y pandemig y dylid cynnig cysylltiadau allweddol o hyd i deuluoedd yn seiliedig ar farn broffesiynol yr ymwelydd iechyd. Fodd bynnag, roedd defnydd helaeth o delefeddygaeth er mwyn cyfyngu ar risgiau sy'n gysylltiedig â chyswllt wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig.

Argymhelliad - 15. Bod Llywodraeth Cymru yn dylunio fframwaith cenedlaethol ar gyfer dosbarthiadau cynenedigol, yn ei ddarparu i bob Bwrdd Iechyd a'i gwneud hi'n ofynnol iddynt wneud mwy i annog presenoldeb mewn dosbarthiadau. Dylai'r fframwaith gynnwys sgyrsiau am les emosiynol a realiti rhianta er mwyn chwalu'r stigma sylweddol a niweidiol ynghylch salwch meddwl amenedigol.

Ym mis Gorffennaf 2019 cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Weledigaeth ar gyfer Strategaeth gwasanaethau mamolaeth (2019 i 2024). Mae'r Weledigaeth hon yn ganlyniad i lawer o bobl yn dod at ei gilydd i adnewyddu ein model o ofal mamolaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth bresennol sydd ar gael, yr arfer gorau a'r adborth gan deuluoedd a staff rheng flaen i ddylunio a gwella gwasanaethau presennol ymhellach.

Cadarnhawyd yn y Weledigaeth y bydd byrddau iechyd yn gweithio ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau iechyd cyhoeddus lleol i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys menywod mewn nifer o feysydd megis gwella iechyd a llesiant rhieni a babanod, gan gynnwys iechyd meddwl. Bydd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwnsela cyn beichiogrwydd (lle bo'n briodol).

Arweinir ffrydiau gwaith gan y Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol i ddeall statws presennol y ddarpariaeth ym mhob bwrdd iechyd a datblygu modelau darpariaeth mewn gwahanol fformatau (rhithwir ac wyneb yn wyneb). Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys y Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol fel rhanddeiliaid allweddol i lywio datblygiad y ddarpariaeth. Cafodd y gwaith hwn ei oedi

oherwydd COVID, ond mae bellach wedi ailddechrau. O fis Gorffennaf cytunodd cydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau mynediad am ddim at y Dull Solihull ar gyfer Cymru gyfan, sy'n cynnwys adnoddau am addysg cynenedigol a chymorth rhianta. Mae'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol wedi sicrhau bod yr wybodaeth hon wedi'i lledaenu'n eang.

Argymhelliad - 16. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cyrff perthnasol i sicrhau bod iechyd meddwl amenedigol yn cael ei gynnwys yn hyfforddiant cyn-gofrestru a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yr holl weithwyr iechyd proffesiynol a chlinigwyr sy'n debygol o ddod ar draws menywod amenedigol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod sylw i iechyd meddwl amenedigol fel pwnc ar ei ben ei hun ym maes bydwreigiaeth ac addysg ymwelwyr iechyd yn cael ei wella ac yn rhan o'r rhaglen nyrsio iechyd meddwl cyn cofrestru. Mae angen i gwricwlwm craidd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer hyfforddiant ymarfer cyffredinol baratoi meddygon teulu yn well i ymdrin â phroblemau iechyd meddwl amenedigol hefyd

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu hyfforddiant PNMH ac IMH ar gyfer Cymru, gyda chynllun i archwilio'r ddarpariaeth o gynnwys hyfforddiant craidd ar gyfer pob maes gwasanaeth a hyfforddiant ychwanegol sy'n benodol i wasanaeth fel y bo'n briodol; y cynllun yw y bydd hwn hefyd ar gael i bob myfyriwr sy'n gweithio gydag unigolion yn ystod y cyfnod amenedigol. Rydym hefyd yn gweithio gydag AaGIC a chydweithwyr AAU yng nghyswllt datblygu fframwaith cymwyseddau cenedlaethol a chynnwys perthnasol. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2021.

Er mwyn ychwanegu at ein dull hyfforddi, mae is-grŵp wedi'i sefydlu ar gyfer y rhwydwaith iechyd meddwl amenedigol.

Mae AaGIC a chydweithwyr yn sicrhau bod eu gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu hyfforddiant/addysg y blynyddoedd cynnar a CAMHS, gan gysylltu ag iechyd meddwl babanod CAMHS (lefel 4) a CAMHS lefel 7 Prifysgol Bangor i ddechrau llunio llwybrau gyrfa a'r opsiynau sydd ar gael.

Mae'r Sefydliad Ymwelwyr Iechyd (iHV) hefyd wedi trosi eu hyfforddiant i gynnig ar-lein yn ystod y pandemig ac mae cydweithwyr yn y bwrdd iechyd wedi dechrau cyflwyno'r hyfforddiant hwn i gydweithwyr.

Mae'r grŵp hyfforddi yn archwilio a oes cyfle i greu cynnig hyfforddiant ar-lein i Gymru ac mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i ddatblygu'r gwaith hwn.

Argymhelliad - 17. Bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith i ddatblygu a chyflwyno strategaeth ar gyfer y gweithlu/fframwaith cymhwysedd er mwyn meithrin capasiti a chymhwysedd ar draws y gweithlu arbenigol, gan edrych ar brofiad yn Rhwydweithiau Clinigol a Reolir Lloegr a'r Alban sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb am hyfforddiant fel rhan o'u rôl arweinyddiaeth a chydlynu.

Mae gwaith i ddeall anghenion y gweithlu a hyfforddiant ymhellach yn cael ei flaenoriaethu fel rhan o gynllun gwaith AaGIC (gweler yr ymateb i argymhelliad 16). O fewn y cynllun presennol ar gyfer y Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol, un o'r blaenoriaethau allweddol yw gweithio gydag AaGIC i ddatblygu Fframwaith Cymwyseddau Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Amenedigol. Disgwylir i hyn ddod i ben erbyn mis Rhagfyr 2021.

Fel ciplun o'r gweithgarwch cyfredol, rydym wedi cynnal hyfforddiant rhithwir dros gyfnod y cyfyngiadau symud gydag ymarferwyr iechyd meddwl amrywiol a seiciatryddion dan hyfforddiant. Mae carfanau amlddisgyblaethol pellach o glinigwyr hefyd wedi cael hyfforddiant gan y Sefydliad Ymwelwyr Iechyd a Gweithredu ar Seicosis Ôl-enedigol. Gwnaethom hefyd ymgymryd â hyfforddiant ar gyfer 60 o Hyrwyddwyr eraill ledled Cymru.

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol rithwir Iechyd Meddwl Amenedigol ym mis Tachwedd 2020 a oedd hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu ychwanegol.

Argymhelliad - 18. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan bob Bwrdd Iechyd fydwraig sy'n arbenigo mewn iechyd meddwl amenedigol er mwyn annog cyfathrebu gwell rhwng gweithwyr proffesiynol fel y gall menywod sy'n sâl gael y gofal a'r cymorth gorau sydd eu hangen arnynt.

Erbyn hyn, mae gan bum bwrdd iechyd fydwraig iechyd meddwl amenedigol arbenigol ac mae un arall wedi rhoi trefniadau dros dro ar waith. Fel rhan o'r cyllid gwella gwasanaethau ar gyfer 2021/22 bydd hyn yn ofyniad ychwanegol i sicrhau bod gennym saith bwrdd iechyd sydd â bydwraig iechyd meddwl amenedigol arbenigol. Er mwyn gallu safoni'r swyddi allweddol hyn, mae'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol wedi datblygu a chytuno ar ddisgrifiadau swydd ar gyfer y math hwn o swydd.

Argymhelliad - 19. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at sefyllfa lle mae pob menyw yn cael perthynas barhaus gyda naill ai bydwraig neu ymwelydd iechyd. Er na fydd hi'n bosibl cyfarfod â'r un unigolyn ar bob achlysur, dylai pob Bwrdd Iechyd fynd ati i glustnodi adnoddau er mwyn ceisio sicrhau parhad gofal, gydag arweinydd a enwir yn gyfrifol am ofal ôlenedigol pob menyw.

Cyhoeddwyd 'Gweledigaeth y Dyfodol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru' ym mis Gorffennaf 2019 ac mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Elfennau craidd y Weledigaeth yw parhad gofal ac iechyd amenedigol. Mae ffrydiau gwaith dan arweiniad y rhwydwaith mamolaeth a newyddenedigol yn datblygu gwaith i wella'r gwasanaethau a ddarperir i fenywod a theuluoedd ymhellach.

Yn ystod pandemig covid mae mamolaeth wedi parhau yn wasanaeth hanfodol ac mae cysylltiadau â menywod wedi aros yn eu lle yn rhithwir ac wyneb yn wyneb. Bydd datblygiad arloesol grwpiau cyfoedion rhithwir a chysylltiadau clinigol yn cael ei werthuso a'i asesu i ddarparu gwell darpariaeth gwasanaeth ymhellach o fewn model mamolaeth y dyfodol.

O ran ymwelwyr iechyd, nodir y Rhaglen Lywodraethu yn Ffyniant i Bawb, ac mae'r strategaeth hon yn nodi'r blynyddoedd cynnar fel maes blaenoriaeth. Gan adlewyrchu'r ymrwymiad yn y strategaeth genedlaethol "i greu system fwy cydgysylltiedig ac ymatebol sy'n rhoi anghenion unigryw pob plentyn wrth ei wraidd", mae gwaith wedi parhau drwy gydol y pandemig ar y rhaglen waith i archwilio sut rydym yn creu system blynyddoedd cynnar, yn lleol ac yn genedlaethol, gan weithio gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar brosiectau braenaru. Ein nod yw datblygu dull gweithredu unigol cydgysylltiedig ar gyfer y blynyddoedd cynnar, a fydd yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd fwy cydweithredol ac integredig. Mae'r rhaglen waith hon wedi tanlinellu'r rôl allweddol sydd gan y gwasanaeth ymwelwyr iechyd o ran cefnogi teuluoedd, yn enwedig o ran nodi'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Yn gysylltiedig â'r gwaith hwn mae datblygu adnodd aciwtedd gweithlu ar gyfer ymwelwyr iechyd er mwyn pennu lefelau llwyth achosion priodol a gofynion cysylltiedig y gweithlu yn unol ag anghenion teuluoedd a nodwyd. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac mae arweinydd penodol wedi cael secondiad i ddatblygu gwaith a ddechreuodd ym mis Ionawr 2021.

Yn ystod y pandemig mae'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd (Dechrau'n Deg a gwasanaethau cyffredinol) wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau eu bod wedi bodloni'r cysylltiadau a'r gwiriadau gofynnol a nodir mewn canllawiau diwygiedig.

Argymhelliad - 20. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau bod lefelau priodol o ddarpariaeth y trydydd sector yn cael eu hariannu'n briodol, yn enwedig lle gwneir atgyfeiriadau gan ac i wasanaethau statudol. Dylid creu cyfeiriadur o wasanaethau'r trydydd sector i gynyddu ymwybyddiaeth eu bod ar gael a dylai darparwyr perthnasol yn y trydydd sector gael eu gwahodd fel mater o drefn i fynychu hyfforddiant ar y cyd â gwasanaethau statudol.

Sesiynau coffi a sgwrs rheolaidd yn y trydydd sector a'r mudiad gwirfoddol a gychwynnwyd ac a hwyluswyd bob 6-8 wythnos gan y Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol sy'n parhau i ategu a chefnogi gwaith amlasiantaethol.

Mae angen wedi'i nodi yng nghyswllt cymorth cymunedol a chymorth gan gymheiriaid i unigolion a'u teuluoedd ag anawsterau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol. O'r cyllid ychwanegol a sicrhawyd o 2021/22 byddwn yn clustnodi elfen o'r cyllid hwn ar gyfer iechyd meddwl amenedigol. Mae swyddogion yn gweithio ar fanylion y cyllid hwn yn awr a bydd rhagor o wybodaeth yn dilyn.

Mae'r Arweinydd Clinigol Iechyd Meddwl Amenedigol yn gweithio gydag InfoEngine a DEWIS Cymru er mwyn datblygu darpariaeth y cyfeiriadur ymhellach. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cynnwys ymgysylltu â sefydliadau'r sector gwirfoddol i gofrestru ar gyfer y ddau.

Argymhelliad - 21. Bod Llywodraeth Cymru'n amlinellu, o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg cymorth seicolegol ar gyfer rhieni babanod newyddenedigol neu rieni sy'n mynd trwy brofedigaeth a bodloni'r safonau, a pha gamau y bydd yn eu cymryd os na sicrheir cydymffurfiaeth â'r safonau. Dylid cyhoeddi'r trydydd rhifyn o'r safonau newyddenedigol fel mater o flaenoriaeth.

Mae Safonau Newyddenedigol Presennol Cymru Gyfan wedi'i sefydlu ers nifer o flynyddoedd bellach ac o ganlyniad nid ydynt yn ystyried y canllawiau diweddaraf gan e.e. Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM). Felly, mae'r Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol yn bwriadu llunio Safonau Newyddenedigol diwygiedig yn seiliedig ar y rhai diweddaraf. Bydd y gwaith yn dechrau yn ddiweddarach yn 2021.

Cafodd astudiaeth gwmpasu o wasanaethau profedigaeth ei chynnal gan Brifysgol Caerdydd ar y cyd â Marie Curie a Chanolfan Ymchwil Canser Cymru, ar ran y Bwrdd Gofal Diwedd Oes. Roedd yr astudiaeth yn mapio'r cymorth presennol, yn amrywio o gyfeirio i gwnsela arbenigol, ac yn nodi meysydd lle mae angen adnoddau pellach. Cyhoeddwyd yr astudiaeth ym mis Rhagfyr 2019 a gellir ei gweld yn:**https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/arolwg-cwmpasu-o-wasanaethau-profedigaeth-yng--nghymru-adroddiad-diwedd-astudiaeth.pdf**

Roedd cwmpas yr astudiaeth yn cwmpasu'r ystod eang o gymorth profedigaeth, gan gynnwys ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn tynnu sylw at fylchau a heriau o ran cymorth mewn profedigaeth. Cyfeiriodd at yr angen i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal profedigaeth yng Nghymru, er mwyn hwyluso buddsoddiad mewn cymorth profedigaeth ar lefel sefydliadol a rhanbarthol a darparu tegwch a mynediad i lefelau priodol o gymorth sy'n ymateb i angen lleol. Er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir yn yr adolygiad o brofedigaeth, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod £1m ychwanegol ar gael ar gyfer pob math o gymorth profedigaeth o fis Ebrill 2021 ymlaen.

Mae grŵp llywio profedigaeth cenedlaethol wedi'i sefydlu ac mae swyddog arweiniol profedigaeth wedi'i recriwtio i roi cyngor ar ddosbarthu/dyrannu'r cyllid hwn ac i ddatblygu fframwaith profedigaeth cenedlaethol i Gymru. Caiff y grŵp llywio ei gadeirio gan Dr Idris Baker, yr arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer gofal diwedd oes ac mae ganddo gynrychiolaeth o amrywiaeth o sefydliadau profedigaeth gan gynnwys gan y rhai sy'n cynrychioli beichiogrwydd a cholli babanod. Fel rhan o'r gwaith hwn caiff safonau gofal profedigaeth generig eu llunio a byddant yn berthnasol i bob sefydliad sy'n darparu cymorth profedigaeth ledled Cymru.

Cyhoeddir y fframwaith ar gyfer ymgynghoriad ym mis Mawrth 2021.

Argymhelliad - 22. Bod Llywodraeth Cymru'n ystyried datblygu rôl ymwelydd iechyd sy'n arbenigo mewn iechyd amenedigol a babanod yng Nghymru i gysylltu â CAMHS a gwasanaethau iechyd meddwl babanod a gweithio mewn ffordd amlddisgyblaethol gyda'r gwasanaethau hynny, gan ddarparu cymorth arbenigol i famau, tadau a'u plant, a rhoi hyfforddiant a gwasanaeth ymgynghori arbenigol i'r gweithlu blynyddoedd cynnar ac ymwelwyr iechyd ehangach, yn enwedig mewn perthynas â materion yn ymwneud ag ymlyniad a bondio.

Gwrthodwyd yr argymhelliad hwn gennym ar y sail mai mater i fyrddau iechyd oedd pennu eu hanghenion staffio o'u dyraniad presennol tuag at ddarparu gwasanaethau cymunedol. Ar ben hynny, nodwyd bod Rhaglen Plant Iach Cymru yn cynnwys ystod gyson o fesurau ataliol ac ymyrraeth gynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ogystal â chyngor ac arweiniad i gefnogi dulliau rhianta. Mae'r rhaglen yn cynnig asesiad rheolaidd gan ymwelwyr iechyd o ymlyniad a bondio i gefnogi perthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni a phlant a hyrwyddo iechyd a gwytnwch emosiynol cadarnhaol ymhlith mamau a theuluoedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod perthnasoedd rhwng rhieni a babanod yn bwysig o ran gwella cydnerthedd yng nghyswllt iechyd meddwl amenedigol ac mae'r Arweinydd Clinigol / Rhwydwaith yn gysylltiedig â meysydd polisi eraill a fydd yn arwain yn y maes pwysig hwn.

Argymhelliad - 23. Rydym yn cydnabod manteision bwydo ar y fron yn arbennig o ran bondio ac ymlyniad ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith pellach i edrych yn fanylach ar effaith bwydo ar iechyd meddwl amenedigol a throi hwn yn ganllawiau i weithwyr proffesiynol a'r cyhoedd

Er bod ein hymateb cychwynnol yn cydnabod manteision bwydo ar y fron, yn enwedig o ran bondio ac ymlyniad, gwrthodwyd yr argymhelliad oherwydd y dystiolaeth anghyson bresennol o effaith a natur achosol hynny yng nghyswllt salwch meddwl amenedigol. Fodd bynnag, i nodi, mae Strategaeth Mamolaeth 2019-2024, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019, yn cynnwys gweithred genedlaethol sy'n nodi y bydd bwydo ar y fron yn cael ei hyrwyddo a'i gefnogi drwy gydol taith beichiogrwydd i fywyd babanod. O fewn y strategaeth honno rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd weithio ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau iechyd cyhoeddus lleol i 'ddatblygu, gweithredu a gwerthuso rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth', sy'n cynnwys ymrwymiad i ddarparu cymorth bwydo ar y fron. Gobeithiwn fod hyn yn cynnig sicrwydd i'r pwyllgor.

Argymhelliad - 24. Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod gan y Byrddau Iechyd safonau, cyngor a chanllawiau sefydledig ar feddyginiaethau seicolegol yn ystod beichiogrwydd a bwydo ar y fron , a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.

Er na ellid derbyn yr argymhelliad hwn ar ei ffurf wreiddiol, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cymryd camau i sicrhau bod byrddau iechyd yn sicrhau bod rhagnodwyr yn ymwybodol o'r cyngor arbenigol sydd ar gael ledled y DU ar ddefnyddio meddyginiaeth yn ystod beichiogrwydd a bwydo ar y fron. Roedd yr ymateb gwreiddiol yn manylu ar rywfaint o'r gwaith hwn. Gallwn ddiweddaru ymhellach fod 'Canllawiau Meddyginiaeth mewn Beichiogrwydd' yn cael eu cadarnhau ar hyn o bryd a bod Meddyginiaeth Seicotropig yng Nghanllawiau Utero hefyd wedi'u datblygu.

Mae'r Arweinydd Clinigol Iechyd Meddwl Amenedigol wedi gwneud cysylltiadau â chydweithwyr o'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ac mae bellach wedi sefydlu fforwm proffesiynol a fydd yn cyfarfod yn rheolaidd, gyda'r nod o nodi fferyllwyr sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl amenedigol ar draws pob bwrdd iechyd.

Argymhelliad - 25. Bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr holl waith o gynllunio'r gweithlu ar gyfer darparu gwasanaeth iechyd meddwl amenedigol yn ystyried anghenion Cymraeg y boblogaeth ac yn darparu ar eu cyfer.

Cydnabyddir yn llawn bwysigrwydd derbyn gofal yn Gymraeg, yn enwedig y mwyaf agored i niwed ac mewn gwasanaethau allweddol fel iechyd meddwl. Bydd gwerthuso Mwy na Geiriau, strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, yn ein helpu i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, yn yr un modd â Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i sicrhau bod strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei gweithredu, sydd â darpariaeth Gymraeg fel llinyn cyflawni euraid.

Ar 4 Mawrth, cododd y Gweinidog hyn gydag Is-gadeiryddion, gan amlinellu'r disgwyliad bod ganddynt gynlluniau i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu a mynediad at wasanaethau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau sy'n gweithio i fodloni Safon 110 y Gymraeg er mwyn gweithio i gynyddu eu gallu i gynnal ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg.

Rydym hefyd yn gweithio gyda NWIS i sicrhau bod cofnodi, olrhain a rhannu dewis iaith yn cael ei ymgorffori mewn modd wedi'i safoni ar yr holl systemau a ddefnyddir yn y GIG yng Nghymru, ac yn gofyn i fyrddau iechyd sicrhau bod y systemau a gyflwynir ganddynt yn gallu cofnodi a rhannu dewis iaith cleifion a fydd yn eu helpu i gyflawni wrth gefnogi'r cynnig gweithredol.

Mae'r Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol hefyd yn cysylltu'n agos â'r arweinydd Cymraeg yn Rhaglen Gydweithredol y GIG i sicrhau bod anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu hadlewyrchu yn natblygiad y llwybr iechyd meddwl amenedigol. Mae'r gwaith yn cynnwys sefydliadau rhanddeiliaid sy'n sicrhau bod taflenni / mesurau canlyniadau ar gael yn Gymraeg.

Argymhelliad - 26 Bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Iechyd adrodd ar i ba raddau y mae eu timau iechyd meddwl amenedigol yn ymgysylltu â gwasanaethau eraill ac yn gweithio ar y cyd â nhw – gwasanaethau fel CAMHS, Unedau Dibyniaeth Cymunedol a thimau iechyd meddwl gofal sylfaenol ac eilaidd.

Mae hyn yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r llwybr Iechyd Meddwl Amenedigol a amlinellir yn argymhelliad 12. Fel rhan o'r ymgysylltu a wnaethpwyd yng nghyswllt y gwaith hwn tynnwyd sylw at feysydd angen ychwanegol. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda chydweithwyr sy'n cefnogi unigolion mewn meysydd gan gynnwys anableddau dysgu/niwroamrywiaeth/CAMHS/camddefnyddio alcohol a sylweddau/gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn gallu rhoi llwybrau ar waith i sicrhau mynediad teg ledled Cymru.

Argymhelliad - 27 Bod Llywodraeth Cymru'n gwneud rhagor o waith ar y cysylltiad rhwng anghydraddoldebau iechyd ac iechyd meddwl amenedigol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y mecanweithiau gorau ar gyfer canfod problemau'n gynnar a thrin y poblogaethau hynny sydd â'r angen mwyaf

Y mis diwethaf cadeiriais Fwrdd Cyflawni a Goruchwylio Gweinidogol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Cymru. Bydd y bwrdd hwn yn gwella'r gwaith o gydlynu a chyflymder y gwaith sy'n ofynnol ym maes iechyd meddwl yn ogystal â rhoi mwy o eglurder ar rolau a chyfrifoldebau, gan greu dull 'rheoli rhaglenni' tynnach o ymdrin â'r trefniadau cyffredinol. Yn bwysig, bydd swyddogaethau'r bwrdd yn cynnwys strategaeth draws-lywodraeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl yn ei chyfanrwydd (sy'n cynnwys camau gweithredu iechyd meddwl amenedigol penodol), Beth am Siarad â Fi 2 - Strategaeth Hunanladdiad a Hunan-niwed a'r ymateb sydd ei angen o ran iechyd meddwl wrth i ni wella o Covid-19. Gwyddom fod yr olaf wedi tynnu sylw'n frwd at yr anghydraddoldebau iechyd sy'n ein hwynebu yng Nghymru ar hyn o bryd.

Un o nodweddion cryf y Bwrdd fydd ei allu i ystyried y dystiolaeth ddadansoddol ac ehangach ddiweddaraf o'r mesurau sydd eu hangen i atal a chefnogi iechyd meddwl ar lefel poblogaeth ac o fewn gwasanaethau iechyd meddwl. Felly, bydd aelodau'r bwrdd yn cynnwys cydweithwyr gwybodaeth a dadansoddol ynghyd â chyswllt clir â'r byd academaidd i sicrhau bod ein dulliau gweithredu yn parhau yn seiliedig ar dystiolaeth. Byddwn hefyd yn ystyried adroddiad menter Adroddiad Statws Ecwiti Iechyd Cymru (WHESRi): Rhoi tegwch iechyd wrth wraidd ymateb ac adferiad cynaliadwy COVID-19.

Yn benodol o fewn gwaith y rhwydwaith iechyd meddwl amenedigol, un o gryfderau'r llwybrau sy'n cael eu datblygu yw eu bod yn canolbwyntio ar anghenion unigolyn a bydd hyn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar nodi a thrin y poblogaethau hynny sydd â'r angen mwyaf yn gynnar. Mae cydweithwyr tîm iechyd meddwl amenedigol arbenigol hefyd wedi cael eu hannog i wneud cysylltiadau'n lleol a datblygu adnoddau sy'n adlewyrchu cynnig lleol – tai, dyled, digartrefedd ac ati.

Mae'r rhaglen iechyd Dechrau'n Deg yn nodi rhaglen gyffredinol well o ymyriadau y dylid eu cyflwyno i bob teulu Dechrau'n Deg. Gall teulu sy'n derbyn gwasanaethau iechyd Dechrau'n Deg ddisgwyl cymaint â 7 'cyswllt' ychwanegol gan eu hymwelydd iechyd. Mae hyrwyddo negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol a ffyrdd iach o fyw yn rhan allweddol o'r cymorth iechyd Dechrau'n Deg ychwanegol a gynigir gan ymwelwyr iechyd a'r gweithlu ehangach. Mae bydwragedd Dechrau'n Deg yn cael eu cynnwys gan nifer o dimau iechyd Dechrau'n Deg lleol ac maent yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth amenedigol i rieni Dechrau'n Deg sy'n cynnwys cymorth i rieni sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl amenedigol, neu sydd mewn perygl o'u datblygu.